# Y CYNGOR 15/07/10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, J R Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Lasen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trefor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones a Dafydd Lewis (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Gwen Carrington (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol), Ann Lloyd Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion), Marian Parry Hughes (Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant a Theuluoedd), Meilys Haulfryn Smith (Uwch Reolwr Busnes, Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu), Guto Rhys Huws (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol a Datblygu'r Gyfundrefn), Gruff Morris (Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, Sylvia Humphreys, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, Ieuan Roberts a Trevor Roberts

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones.

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Mai 2010 fel rhai cywir.

**3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitem Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch y Berwyn.

Eglurwyd y byddai angen i bawb oedd yn llywodraethwr ar ysgol a effeithir gan y cynigion, ddatgan eu buddiant ar gychwyn y cyfarfod, ond, dan y Cod Ymddygiad roedd gan bob aelod oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar gorff llywodraethu ysgolion cynradd hawl i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

O safbwynt aelodau oedd â pherthynas yn ddisgybl neu staff mewn ysgol yn y dalgylch, eglurwyd y byddai gan aelod fuddiant personol os oedd penderfyniad ar y mater yn

debyg o effeithio lles neu sefyllfa ariannol person yr oedd ganddynt gysylltiad agos ag ef/hi. Byddai'r buddiant hwnnw'n rhwystro aelod rhag cymryd rhan yn y drafodaeth os byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd gredu ei fod mor arwyddocaol fel y byddai'n rhagfarnu barn yr aelod.

Eglurwyd bod Pwyllgor Safonau'r Cyngor o'r farn bod perthynas rhiant, taid/nain, ŵyr/wyres, gwr/gwraig, plentyn, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol. Caniatawyd gollyngiad gan y pwyllgor i nifer o aelodau oedd â pherthnasau yn y categori yma i gymryd rhan a phleidleisio yn y drafodaeth gyffredinol ond nid ar yr ysgol benodol yr oedd ganddynt gysylltiad â hi.

Nodwyd y bwriedir ymdrin â'r 3 argymhelliad ar wahân sef Ysgol y Parc yn gyntaf, yna ysgolion tref y Bala, ac ysgolion gwledig eraill yn olaf. Byddai'r drefn yn galluogi aelodau oedd â buddiant mewn un ysgol yn unig, gymryd rhan yn y drafodaeth ar yr argymhellion eraill.

(i) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion y Berwyn", oherwydd y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Elwyn Edwards oherwydd bod wyrion iddo yn mynychu Ysgol Bro Tegid, Y Bala;
- Y Cynghorydd Dylan Edwards oherwydd cysylltiad teuluol â phob ysgol ym Mhenllyn ac eithrio Ysgol Y Parc;
- Y Cynghorydd Pat Larsen oherwydd bod perthynas teuluol (trwy briodas) â phrif athrawes Ysgol y Parc;
- Y Cynghorydd T G Ellis oherwydd bod wyresau iddo yn mynychu Ysgol Bro Tegid, Y Bala
- Y Cynghorydd John Pughe Roberts oherwydd bod ei ferch yn mynychu Ysgol Bro Tegid y Bala

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr ysgol(ion) dan sylw.

(ii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn y Rhybudd o Gynnig ynglŷn â chwmni Barcud Derwen oherwydd y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd oherwydd ei fod yn gyn-gyfranddaliwr Barcud Derwen;
- Y Cynghorydd Dewi Llewelyn oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr Cwmni sy'n berchen cyfranddaliadau yng nghwmni Barcud;
- Y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones oherwydd ei fod yn gyfranddaliwr Barcud Derwen

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd y Cyngor Alan Jones Evans fuddiant personol yn yr eitem "Ad-drefnu Ysgolion y Berwyn", oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Parc.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(iv) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol" oherwydd y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dafydd Lloyd Hughes oherwydd ei fod yn gweithio fel nyrs gymunedol ym maes anabledd dysgu;
- Y Cynghorydd Linda Wyn Jones oherwydd ei bod yn rhedeg cwmni sy'n cyflawni gwaith i'r Cyngor ym maes anabledd dysgu.
- Y Cynghorydd J R Jones oherwydd bod ei wraig yn ofalwraig

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(v) Datganodd Y Cynghorydd Eryl Jones Williams fuddiant personol yn y cwestiwn ynglŷn â throsglwyddiad y stoc tai, oherwydd ei fod yn gyn denant i'r Cyngor, a bellach yn denant i Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Hefyd yn yr eitem "Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol" oherwydd bod ei wraig yn derbyn gofal;

(vi) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem " Y Pwyllgor Cynllunio Newydd" oherwydd y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd R Len Jones oherwydd ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Ardal Arfon;
- Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd oherwydd ei fod yn Is-gadeirydd Pwyllgor Ardal Arfon;
- Y Cynghorydd Alun Wyn Evans oherwydd ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionydd;
- Y Cynghorydd Dafydd Lloyd Hughes oherwydd ei fod yn Is-gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd;
- Y Cynghorydd Selwyn Griffiths oherwydd ei fod yn Is-gadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor;
- Y Cynghorydd Huw Price Hughes oherwydd ei fod yn enwebai ar gyfer y pwyllgor

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(vi) Datganodd y Cynghorydd R J Wright fuddiant personol yn yr eitem " Y Pwyllgor Cynllunio Newydd" oherwydd ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor. Ni chymerodd ran yn y trafodaethau ac ni bleidleisiodd ar y mater.

## 3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Cydymdeimlwyd â theulu'r Cynghorydd Bob Anderson a fu farw'n sydyn, a thalwyd teyrnged iddo gan y Cadeirydd.

Symudodd y Cynghorydd Bob Anderson i Gaernarfon yn ystod yr wythdegau i agor siop bwydydd iach, a daeth y dref yn agos iawn at ei galon. Roedd ganddo feddwl y byd o Gaernarfon, a chyfrannodd yn helaeth at fywyd cyhoeddus lleol.

Gwasanaethodd yn ddygn ac yn effeithiol dros y dref am flynyddoedd lawer, ac ymroddodd yn llwyr i'r gwaith o wella a chodi proffil Caernarfon – ei dref fabwysiedig.

Roedd y Cadeirydd wedi cydweithio'n agos gyda Bob Anderson fel aelodau o Gyngor Tref Caernarfon a Chyngor Sir Gwynedd, a nododd y bydd bwlch ar ei ôl, na fydd yn hawdd ei lenwi.

(b) Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Emyr Williams, Cynorthwydd Technegol yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a fu farw'n sydyn ac annisgwyl yn 23 oed.

Roedd Emyr yn gyd-weithiwr hynod boblogaidd, ac roedd colli rhywun mor ifanc, a oedd yn dangos cymaint o addewid yn ergyd drom, ac roedd y staff yn hynod drist o golli cyfaill mor weithgar, brwdfrydig a dymunol.

(c) Cydymdeimlwyd gyda theulu'r Cynghorwyr Keith a June Marshall, oedd wedi colli wyres, un o efeilliaid yn ddiwedd. Nododd y Cadeirydd ei fod yn falch iawn fod y wyres fechan arall yn dod yn ei blaen, a dymunwyd yn dda iddynt fel teulu

Yna, cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a gwahoddwyd y cyfarfod i sefyll fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ch) Llongyfarchwyd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones ar ei ddewis yn Llywydd Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru eleni. Nodwyd bod y Sioe yn un o brif atyniadau calendr amaethyddol Gogledd Cymru, ac y cafwyd sioe lwyddiannus a phleserus dan ei lywyddiaeth.

**4 CWESTIYNAU**

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Keith Greenly-Jones:-**

"Rhoddodd Cyngor Gwynedd filiynau o bunnoedd tuag at sefydlu trosglwyddiad y stoc tai gyda'r ddealltwriaeth, os byddai'r trosglwyddiad yn llwyddiannus, y byddai'r arian yn cael ei ddychwelyd yn llawn gan y Cynulliad.

Trosglwyddodd y stoc tai ar 12 Ebrill eleni, felly, pa bryd all y Cyngor ddisgwyl derbyn ei arian yn ôl a faint o arian a dderbyniodd Cyngor Gwynedd am y faniau, peiriannau torri gwair ac ati?"

**Ateb gan y Cynghorydd Trefor Edwards Arweinydd Tai**

"Diolch am y cwestiwn.

(i) Penderfynodd y Cyngor Llawn ar yr 2il o Ebrill 2009 i drosglwyddo Stoc Tai'r Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn unol â dymuniad 72% o'r tenantiaid. Cwblhawyd y trosglwyddiad hwn ar 12fed o Ebrill 2010.

(ii) Yn ystod y broses roedd gwariant yn cael ei wneud i sefydlu Cartrefi Cymunedol Gwynedd, a defnyddiwyd arian y Cyngor dros dro i gyllido hynny. Yn unol â chanllawiau'r Cynulliad, lluniwyd cytundeb trosglwyddo oedd yn gosod allan y trefniadau talu.

(iii) O'r costau sefydlu, derbyniwyd £2.9m yn Ebrill ac, yn dilyn archwiliad yn unol â'r drefn ac amserlen arferol, disgwylir £2.2m ychwanegol ym Medi, ynghyd â £250k arall ym Mai 2012.

(iv) Dim ond cyfran o'r fflyd tai a brynwyd gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd, gyda'r rhan fwyaf ar gytundeb prydlesu, sydd bellach wedi dod i ben. Talwyd eisoes £190k am gerbydau, £50k am offer swyddfa a TG, a £240k am gynnwys y storfeydd a'r faniau.

**5 AD-DREFNU YSGOLION DALGYLCH Y BERWYN**

(a) Cyflwynwyd adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol yn amlinellu cynigion i ad-drefnu ysgolion Y Berwyn, gosod y rhesymeg, a gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'r bwriad o symud i gyfnod statudol lle'n berthnasol.

(b) Croesawyd y cyhoedd i'r cyfarfod gan Gadeirydd y Cyngor, ac eglurwyd y bwriedir trafod Ysgol y Parc yn gyntaf, yna ysgolion y dref ac yna'r ysgolion gwledig.

(c) Cafwyd cyflwyniad gan y Cynghoryodd Liz Saville Roberts, Arweinydd Portffolio Addysg.

Ar ddechrau'r cyflwyniad, adroddwyd bod cais am arian cyfalaf gan y Cynulliad, tuag at godi ysgol newydd ym Mro Dysynni, a gwella adnoddau a chyfleusterau Ysgol Penybryn Tywyn, Pennal a Chorris wedi llwyddo, a'i fod yn golygu cyfraniad o £5.5m tuag at gyfanswm buddsoddiad o bron i £8m yn Ne Meirionnydd. Nodwyd siom bod ceisiadau Ysgol y Groeslon ac Ysgol Hafod Lon wedi bod yn aflwyddiannus.

Cyfeiriwyd at sawl reswm dros ad-drefnu ysgolion Gwynedd, sef:-

- cyflwr gwael adeiladau;
- dosbarthiadau o dros 30 o ddisgyblion;
- adnoddau a chyfleusterau annigonol;
- ysgolion mawr a chanolig yn colli staff;
- nifer plant y sir yn lleihau;
- llefydd gwag niferus;
- llawer o ysgolion yn y rhwyd diogelwch

Eglurwyd mai prif amcan y strategaeth oedd sicrhau gwell addysg i holl blant y sir, a'i fod yn ddibynnol ar lwyddiant y broses ad-drefnu.

Cyfeiriwyd at adroddiad ESTYN ar Ansawdd Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd. Eglurwyd bod yr adroddiad yn feirniadol o'r Cyngor oherwydd "diffyg cynnydd parhaus o ran ad-drefnu ysgolion" . Roedd hefyd yn nodi bod tensiynau gwleidyddol yn rhwystr rhag newid a gwella, a bod angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â nifer uchel y llefydd gwag.

Ymhelaethwyd bod 298 o blant yn nalgylch y Berwyn eleni, ac y byddai'n ddigon rhesymol iddynt oll fynychu ysgol yn nhref y Bala. Fodd bynnag, nodwyd eu bod yn parchu'r egwyddor o wahaniaethu rhwng addysg wledig ac addysg drefol. Yn hyn o beth roedd yn argymell cadw'r rhwydwaith o ysgolion gwledig o amgylch Y Bala, gan hyrwyddo cydweithio rhyngddynt, a gyda'r datblygiad yn nhref Y Bala. Pwysleisiodd y byddai'n darparu adnoddau a chyfleoedd ar gyfer y dalgylch, ac yn sefydlu model gwydn a chadarn ar gyfer y dyfodol.

Adroddwyd mai 27 o blant oedd yn Ysgol Bro Tryweryn eleni. Ystyriwyd priodoldeb cau Ysgol Bro Tryweryn, ond wedi ystyried nifer o ffactorau, sef plant yn teithio pellter i'r ysgol, effaith ar ddefnydd yr iaith yn gymdeithasol, ansawdd yr adeiladau a photensial i'r ysgol godi allan o'r rhwyd diogelwch yn ystod y tair blynedd nesaf, 'roedd yn argymell bod yr ysgol aros yn agored, ac yn cydweithio gyda dwy ysgol wledig arall, a gyda'r datblygiad arfaethedig yn nhref y Bala.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyngor yn ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod Hydref 2010 ar y bwriad i gau Ysgol y Parc erbyn Medi 2012 gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag Arweinwyr Cymunedol a Swyddogion Adfywio Bro i ddiogelu defnydd cymunedol adeilad ysgol Y Parc.

(ch) Diolchodd Uwch Arweinydd Datblygu i aelodau a swyddogion am y gwaith manwl wrth adolygu'r Dalgylch.

Eglurwyd bod y cynllun yn ymdrechu i ddiogelu addysg mewn ardaloedd gwledig, a sicrhau buddsoddiad mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion eraill bregus. Cyfeiriwyd at siroedd eraill oedd yn cau ysgolion mwy o faint, a phwysleisiodd bod y Cyngor yn ceisio arbed cynifer â phosibl o ysgolion gwledig.

Nododd bod cost y rhwyd diogelwch yn cynyddu'n flynyddol. Ofnai y bydd y ddarpariaeth yn diflannu yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ac y bydd yn rhaid i ysgolion bach gau ar eu liwt eu hun, heb gynllun.

Nododd ei fod yn parchu cymuned unigryw'r Parc, a'i fod yn ffyddiog y bydd y gymuned yn ffynnu heb ysgol, oherwydd bod yno arweinwyr cymunedol cryf a phobl weithgar.

(d) Cafwyd cyflwyniad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Adroddwyd bod Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd wedi'i chymeradwyo'n ddiwrthwynebiad gan y Cyngor yn Ebrill 2009.

Cyfeiriodd at rai o brif nodweddion y strategaeth, sef:-

- ceisio sicrhau dosbarthiadau o faint addas;
- ceisio'r amgylchedd ddysgu orau ar draws y sir;
- gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau o fewn y gyfundrefn addysg;
- cynnal trafodaeth leol i edrych ar opsiynau fesul dalgylch;
- ystyried cynigion penodol ar gyfer dalgylchoedd;
- cynnal asesiadau ardrawiad iaith a chymuned

Adroddwyd ymhellach y cymeradwywyd, yn Rhagfyr 2009 cyfnod o ymgynghori statudol mewn perthynas â chau 5 ysgol ym Mro Dysynni sef Aberdyfi, Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn, a sefydlu ysgol ardal newydd. Cyfeiriodd at lwyddiant diweddar y cais am grant o £5.5m gan y Cynulliad tuag at y Cynllun.

Cadarnhawyd bod 298 o blant mewn 6 ysgol gynradd yn y dalgylch, a bod yr ardal wedi gweld gostyngiad o 40% yn nifer y plant ers 1975, gyda'r canlyniad bod llawer o lefydd gweigion yn ysgolion y dalgylch.

Mewn ymateb i gais y Bwrdd am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â goblygiadau statws cymunedol Ysgol y Parc, eglurodd y Cyfarwyddwr bod gwaith pellach wedi ei gyflawni i'r maes. Cadarnhawyd mai'r Cyngor oedd berchen ar yr adeilad, ond bod prydles rhwng y Cyngor a'r cyngor cymuned i ddarparu adnodd cymunedol. Roedd pwyllgor lleol yn rheoli'r adnodd cymunedol, ac roedd y Cyngor yn cyfrannu at gostau cynnal y neuadd. Pwysleisiodd bod y brydles yn gwarantu defnydd cymunedol y neuadd i'r dyfodol, ond nid oedd y trefniant yn rhwystr i gau'r ysgol.

Eglurodd bod Ysgol O M Edwards tua 3 milltir o'r Parc, a bod 50 o blant yn yr ysgol honno. Roedd capasiti'r ysgol yn 72 o blant, ac eglurodd y bydd yr awdurdod yn gwarantu lle yno ar gyfer plant dalgylch y Parc, ac y byddant yn derbyn cludiant am ddim i'r ysgol. Pwysleisiodd y bydd cynyddu nifer y plant yn Ysgol O M Edwards yn rhoi sicrwydd hir dymor i'r ysgol, ac yn ei rhoi ar dir cadarn ar gyfer y dyfodol, Hefyd nodwyd y bydd cyfle i uwchraddio Ysgol O M Edwards fel rhan o'r cynllun.

Eglurwyd y bydd cau ysgol y Parc yn creu arbedion o £104,000. Bwriedir dyrannu £30,000 i Ysgol O M Edwards er mwyn ymdopi â'r cynnydd yn y plant, a chlustnodi £15,000 ar gyfer costau cludiant. Bydd lleiafswm arbediad net o £59,000.

(dd) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15(1) derbyniodd y Cadeirydd ddeisebau gan y Cynghorydd Elwyn Edwards, gyda 600 o enwau ynghyd â 40 llythyr a cherdyn post gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, yn gofyn i'r Cyngor beidio â chau Ysgol y Parc

Diolchodd y Cadeirydd am y deisebau a'r gohebiaethau a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth perthnasol.

(e) Cynigwyd ac eiliwyd gwelliant i gadw Ysgol y Parc ar agor, a bod yr ysgol yn cydweithio gydag Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn yn yr un modd ag y bydd Ysgol Ffridd y Llyn yn cydweithio gydag Ysgol Bro Tryweryn.

(f) Datganwyd gan Arweinydd Grŵp Llais Gwynedd, bod y Grŵp, ar gais trigolion y Parc wedi cytuno i beidio cymryd rhan yn y drafodaeth.

(ff) Cafwyd anerchiad gan aelod Llandderfel.

Ar ddechrau'i anerchiad, ac ar gais Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, diolchodd i Gyngor Gwynedd am yr hyn yr oedd yn ei wneud i hybu a gwarchod y Gymraeg trwy Wynedd.

Eglurodd yr aelod y cafwyd cytundeb unfrydol mewn cyfarfod diweddar i gau ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol Uwchradd y Berwyn, ac adeiladu Ysgol Gydol Oes newydd ar safle Ysgol y Berwyn. Nododd bod sefydlu'r ysgol yn torri cwys newydd ac yn arbediad o tua £100,000 y flwyddyn i'r Cyngor.

Yn yr un cyfarfod, eglurodd y cafwyd barn unfrydol ynglŷn â'r 4 ysgol ym Mhenllyn, a dewiswyd cynllun cydweithio, sef Ysgol Bro Tryweryn gydag Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol y Parc gydag Ysgol O M Edwards.

Nododd bod adroddiad yr ardrawiad iaith yn dangos bod y Parc yn un o gadarnleoedd yr Iaith Gymraeg, bod yr iaith bellach dan fygythiad ledled y sir, ac mai ffwlbri fyddai cau Ysgol y Parc. Nodwyd bod y Saesneg ar gynnydd fel iaith yr iard mewn nifer cynyddol o ysgolion ledled y sir, a bod y plant a ddaw o gartrefi di-gymraeg yn dysgu'r iaith yn drwyadl yno.

Cyfeiriodd at yr arbediad sylweddol drwy gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn a sefydlu Ysgol Gydol Oes newydd ar safle Ysgol y Berwyn, a nododd mai pitw fydd yr arbediad ariannol a wneir drwy gau Ysgol y Parc. Hefyd mynegodd gonsyrn bod adeilad Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn yn rhy fychan ar gyfer plant ychwanegol, ac ofnai y byddai rhaid ychwanegu at yr adeilad, ac y byddai'r arbedion yn mynd yn llai.

Pwysodd ar yr aelodau i ddiogelu'r iaith a'r gymuned trwy gefnogi ei welliant i gadw Ysgol y Parc ar agor.

(g) Cafwyd anerchiad gan aelod Y Bala.

Nododd nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros gau Ysgol y Parc.

Eglurwyd mai bychan fyddai'r arbediad o gau'r ysgol oherwydd costau cludiant uchel; costau staffio a chostau ehangu Ysgol O M Edwards ar gyfer plant ychwanegol. Cyfeiriodd at brydles rhwng Cyngor Gwynedd a'r cyngor cymuned i ddarparu adnodd cymunedol. Nododd bod y brydles dal yn hyfyw, ac na fydd yn bosibl i'r Cyngor ddefnyddio'r adeilad i'w ddibenion ei hun, ni allai werthu'r adeilad a bydd costau cynnal a chadw'r adeilad yn syrthio ar y Cyngor am gyfnod y brydles. Pwysleisiodd bod unrhyw arbedion ariannol yn anghymesur.

Manylodd ar adroddiadau ardrawiad iaith a chymuned a gomisiynwyd gan y Cyngor. Nododd yr aelod ei fod yn siomedig iawn nad oedd yr adroddiadau wedi eu cynnwys gyda phapurau'r Cyngor, er mwyn cynorthwyo'r aelodau i ddod i benderfyniad cytbwys ar y cynigion. Eglurodd bod yr adroddiadau'n casglu y byddai cau Ysgol y Parc yn cael effaith difrifol ar gymuned ac iaith Penllyn gyfan, a bod yr ysgolion yn bwysig i sefyllfa economaidd a diwylliannol yr ardal. Pwysleisiodd bod angen asesiad effaith economaidd ar sail y model ad-drefnu terfynol.

Cyfeiriodd at adroddiad ESTYN. Pwysleisiodd bod safon uchel i'r addysg a gynigir ac nad oedd cyfiawnhad addysgol dros gau Ysgol y Parc.

Yn olaf, cyfeiriodd at rai o brif amcanion y Cynllun Tair Blynedd y Cyngor sef cynnal cymuned trwy hyrwyddo datblygiadau economaidd; galluogi pobl i aros yn eu cymunedau, denu pobl ifanc a theuluoedd i'r ardal, cefnogi ardaloedd gwledig, parhau i warchod a hybu'r iaith Gymraeg a.y.b. Pwysleisiodd bod y cynnig i gau Ysgol y Parc yn gwbl anghydnaws â llawer iawn o amcanion y Cynllun Tair Blynedd.

Pwysleisiodd nad oedd tystiolaeth ddilys dros gau Ysgol y Parc a phwysodd ar yr aelodau i gefnogi'r gwelliant i gadw Ysgol y Parc ar agor.

(ng) Cafwyd anerchiad gan aelod Llanuwchllyn.

Adroddodd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Parc ers dwy flynedd, a'i fod wedi tystio i ysgol wledig oedd mewn harmoni llwyr â'i chymuned.

Nodwyd bod 91% o drigolion y Parc yn siarad Cymraeg, bod yr ysgol yn bwerdy iaith a diwylliant yr ardal, a bod rhaid diogelu'i dyfodol er mwyn gwarchod yr iaith a'r diwylliant.

Eglurodd ei fod yn anghytuno'n llwyr nad oedd ysgol o'r maint yma'n gallu darparu profiadau priodol ar gyfer y disgyblion, a chyfeiriodd at brofiadau byth cofiadwy'r plant ar eu buddugoliaeth yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala. Pwysleisiodd bod pob un o'r disgyblion ar y llwyfan, a bod holl blant yr ysgol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol.

Nododd mai camsyniad oedd y rhagdybiaeth bod consensws yn y Parc i yrru'r plant i Ysgol O Edwards, Llanuwchllyn. Eglurodd bod tref y Bala yn agosach i nifer o gartrefi dalgylch y Parc, ac y byddai gyrru'r plant i'r Bala yn hytrach na Llanuwchllyn y llawer

hwylusach i sawl teulu. Mynegwyd pryder y bydd plant y Parc yn cael eu gwasgaru rhwng Llanuwchllyn a'r Bala, gyda'r canlyniad y bydd yn chwalu eu hunaniaeth am byth.

Cyfeiriwyd at adroddiadau ardrawiad iaith a chymuned, oedd yn casglu nad oedd effaith negyddol o uno plant y Parc ac O Edwards oherwydd cefndir cyffelyb y ddwy ardal. Fodd bynnag nid oedd hynny'n wir o uno Ysgol y Parc â thref y Bala.

Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â chost uchel cludo'r plant i Lanuwchllyn ac ynglŷn â chludo plant ifanc gryn bellter.

Mynegwyd pryder pellach ynglŷn â gweithgareddau ar ôl ysgol, gan nodi y byddant yn drafferthus ac yn anymarferol, gyda'r canlyniad y bydd y plant yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd oherwydd anghyfleustra a phellter.

Pwysodd ar yr aelodau i gefnogi'r gwelliant oedd yn gwbl dyngedfennol i gymuned y Parc.

(h) Pwysleisiodd aelod arall bod cymuned y Parc yn unigryw ac y byddai'n amhosibl ail greu'r gymuned pe byddai'n chwalu.

Cyfeiriodd yntau at lwyddiannau'r ysgol fechan yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala, a gwyliau cenedlaethol eraill, gan bwysleisio bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y gweithgareddau.

Eglurwyd bod amrediad eang o gyfleusterau ar gael mewn ardaloedd trefol, a bod diogelu ysgolion mewn pentrefi gwledig yn fodd i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng y wlad a'r dref.

Nodwyd nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai plant dalgylch y Parc yn mynychu Ysgol O Edwards, a mynegodd bryder y byddai'r plant yn gwasgaru a'r gymuned yn chwalu.

Pwysleisiodd bod cymuned y Parc yn amhrisiadwy a phwysodd ar yr aelodau i gefnogi'r gwelliant i gadw'r ysgol ar agor.

(i) Eglurodd aelod ei fod wedi atal ei bleidlais pan drafodwyd y mater ym Mwrdd y Cyngor, oherwydd diffyg gwybodaeth ynglŷn â statws cymunedol yr ysgol. Roedd wedi ymweld â'r ysgol erbyn hyn, ac wedi'i argyhoeddi'n llwyr na ddylid cau'r ysgol.

Pwysleisiwyd nad oedd tystiolaeth dros gau'r ysgol o safbwynt y ddarpariaeth addysg. Hefyd nid oedd tystiolaeth bod niferoedd y plant yn gostwng.

Nodwyd bod Ysgol y Parc yn ysgol naturiol Gymraeg, ac y byddai cau'r ysgol yn difetha patrwm ieithyddol a diwylliannol yr ardal. Pwysleisiodd y byddai'n tanseilio ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r Gymraeg, a'i fod yn groes i amcanion Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion y Sir.

Roedd yn cytuno bod y sefyllfa ariannol yn ystyriaeth bwysig wrth ad-drefnu ysgolion y sir, ond pwysleisiodd mai bach iawn fyddai'r arbediad o gau Ysgol y Parc, a phwysodd ar yr aelodau i fuddsoddi yn addysg plant Ysgol y Parc, trwy gefnogi'r gwelliant i gadw'r ysgol ar agor.

(l) Adroddodd aelod arall mai'r mewnlifiad i ardaloedd Gwynedd oedd y bygythiad mwyaf i'r iaith Gymraeg. Nodwyd bod unedau addysgol mwy mewn ardaloedd Cymraeg yn fwy gwydn, ac yn gallu cymhathu mewnfudwyr yn well nag ysgolion bach - er mwyn sicrhau parhad yr iaith Gymraeg. Eglurwyd bod yr adroddiad ardrawiad iaith yn nodi y byddai cyfuno Ysgol y Parc ac Ysgol O M Edwards yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, gan y byddai'n creu uned addysgol â'r gallu i gymhathu mewnfudwyr.

Ymhellach, nodwyd bod rhai o ysgolion mwyaf y Sir â hyd at 40 o blant yn y dosbarth derbyn, yn colli athrawon. Nodwyd bod llawer o'r ysgolion yma mewn ardaloedd lle'r oedd y Gymraeg yn iaith y gymuned ac iaith y buarth yn ogystal. Cyfeiriwyd at annhegwch y sefyllfa gan bwysleisio bod dyletswydd i sicrhau tegwch i holl blant y Sir.

Pwysodd ar yr aelodau i gefnogi'r cynnig gwreiddiol.

(ll) Nododd aelod bod y Cyngor yn gwario llawer gormod ar gynnal adeiladau ysgolion, yn hytrach nag ar addysg ei hun. Roedd llawer o blant y sir ar eu colled fel canlyniad, a phwysleisiodd na fyddai cadw Ysgol y Parc yn agored yn ateb y broblem sylfaenol.

Eglurodd bod rhaid edrych tuag at ddyfodol oedd yn cynnwys y wlad yn ogystal â'r dref. Pwysleisiodd bod y cynnig gwreiddiol yn diogelu a chryfhau 3 allan o'r 4 ysgol fechan o amgylch y Bala, a hefyd yn creu calon gref yn y dref fydd yn cynnig dyfodol i'r ysgol uwchradd.

Cyfeiriodd at lwyddiant diweddar y cais am grant cyfalaf ar gyfer adeiladu ysgol newydd ym Mro Dysynni. Pwysleisiodd na fyddai buddsoddiad cyffelyb yn dod i ardal Y Bala os na fydd y Cyngor yn cefnogi'r cynnig gwreiddiol, gyda'r canlyniad na fydd sicrwydd na sefydlogrwydd i addysg gynradd nac uwchradd yn y dalgylch.

(m) Adroddodd aelod arall bod y byd yn newid a bod rhaid addasu trefniadau. Nododd bod 7 ysgol fach wedi cau yn ei ardal ers blynyddoedd lawer, ond nid oedd addysg y plant wedi dioddef o'r herwydd.

Eglurodd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Llanrug. Roedd yn un o ysgolion mwyaf y sir, ac roedd yr ardal yn gwbl Gymraeg, a Chymraeg oedd iaith y buarth.

Adroddodd bod yr ysgol wedi derbyn adroddiad rhagorol gan ESTYN yn ddiweddar. Roedd rhieni'n fodlon iawn gydag ansawdd yr addysg, ond roeddynt yn anhapus ynglŷn â chyflwr yr adeilad a lefel y staffio. Pwysleisiodd bod yr ysgolion mawr yn sybsideiddio'r ysgolion bach, a bod y rhwyd diogelwch yn faen tramgwydd i'r ysgolion mawr. Eglurodd nad oedd yn dymuno gweld Ysgol y Parc yn cau, ond pwysleisiodd bod rhaid bod yn realistig, a chynllunio'n drefnus ar gyfer y dyfodol. Atgoffwyd yr aelodau bod angen darparu'r addysg orau i holl blant y sir.

(m) Adroddwyd gan Arweinydd Cyngor ei fod wedi cael cyfle i drafod y sefyllfa gyda phobl y Parc. Nododd ei fod yn ddiolchgar iddynt am fod yn barod i geisio cydweithio, ac am eu hymddygiad wrth ymgyrchu i gadw'r ysgol yn agored. Diolchodd hefyd i'r aelodau lleol am eu gwaith called, a'u cyfraniad adeiladol i'r trafodaethau.

Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu'n ddiwrthwynebiad y Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion. Roedd y strategaeth yn seiliedig ar yr angen i gynnal cyfundrefn addysg gynaliadwy i'r dyfodol. Nododd nad oedd y sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Cyfeiriwyd at fuddsoddiad sylweddol y Cynulliad yn ysgol newydd ardal

Tywyn, a phwysleisiwyd y byddai diffyg cynllunio gan y Cyngor, yn arwain at ddiffyg buddsoddiad yn ardal y Bala.

(n) Nododd aelod arall bod penderfyniadau anodd yn wynebu'r Cyngor er mwyn darganfod arbedion, bod gwrthdaro rhwng darganfod arbedion a gwarchod cymunedau, ond ei fod wedi'i argyhoeddi na ddylid cau Ysgol y Parc

(o) Adroddwyd gan y Prif Weithredwr bod y sefyllfa ariannol wedi dwysau ers dechrau'r strategaeth, a bod y sefyllfa wedi gwaethygu ymhellach ers cyhoeddi cyllideb frys y Canghellor. Nodwyd bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn darogan y bydd angen i'r Cyngor arbed £47m dros y 4 blynedd nesaf, a phwysleisiodd na fydd modd gwarchod yr ysgolion i'r un graddau a wnaethpwyd yn y gorffennol.

Nodwyd bod cost y rhwyd diogelwch yn parhau i gynyddu, bod nifer yr ysgolion sy'n derbyn y warchodaeth yn cynyddu, ac y bydd y baich yn syrthio ar ysgolion nad ydynt yn derbyn gwarchodaeth. Pwysleisiodd y byddai peidio cefnogi'r cynnig gwreiddiol â goblygiadau i weddill ysgolion a gwasanaethau'r sir, a nododd y bydd penderfyniadau anos yn y dyfodol pan fydd rhaid dileu rhai gwasanaethau'n llwyr.

(p) Wrth gloi, mynegwyd pryder dwys gan Arweinydd Portffolio Addysg y gallasai peidio cefnogi'r cynnig gwreiddiol i gau Ysgol y Parc gael effaith ar gais y Cyngor am arian cyfalaf gan y Cynulliad, ac y byddai'n peryglu'r holl ddatblygiadau yn nhref y Bala. Pwysodd ar yr aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliant.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant i beidio cau Ysgol y Parc, a gofyn iddi gydweithio gydag Ysgol O Edwards, Llanuwchllyn yn yr un modd ag oedd Ysgol Ffridd y Llyn yn cydweithio gydag Ysgol Bro Tryweryn.

**O blaid: (28)** Y Cynghorwyr: Anwen Davies, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Simon Glyn, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Eric Merfyn Jones, Linda Wyn Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, J Wynn Meredith, Llinos Merks, W Tudor Owen, Peter Read, Dafydd W Roberts, Ann Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright

**Yn erbyn: (35)** Y Cynghorwyr **:** Stephen Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Huw Edwards, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, R L Jones, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, J.W.Williams, a R H Wyn Williams

**Atal pleidlais (3)** Y Cynghorwyr Siôn Selwyn Roberts, Guto Rhys Tomos a Gethin Glyn Williams

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol a chafodd ei basio

Cynigiwyd, eiliwyd a phasiwyd y cynigion ynglŷn ag ysgolion tref y Bala ac yna ysgolion gwledig eraill.

O safbwynt yr Ysgol Gydol Oes, pwysleisiodd Arweinydd Portffolio Addysg, nad oedd yn fwriad adeiladu ysgol o'r newydd, ond yn hytrach cyflawni addasiadau a gwelliannau i'r adeiladau presennol.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998 ar y bwriad i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid, ac Ysgol Uwchradd Y Berwyn fel bod modd sefydlu Ysgol Gymuned Gydol Oes newydd yn nhref Y Bala i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15.**

**(ii) Ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod Hydref 2010 ar y bwriad i gau Ysgol y Parc erbyn Medi 2012 gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag Arweinwyr Cymunedol a Swyddogion Adfywio Bro i ddiogelu defnydd cymunedol adeilad ysgol Y Parc.**

**(iii) Hybu cydweithio rhwng Ysgolion O M Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn ac i ddatblygu ffyrdd o ganiatáu i'r ysgolion fanteisio ar gyfleusterau ac arbenigedd y campws gydol oes. Nid oes i'r cynnig hwn oblygiadau statudol.**

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

(a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar berfformiad ac effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn 2009/10, ac i amlinellu'r materion y cytunwyd fel y rhai pwysicaf i roi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

(b) Adroddwyd gan y Pennaeth bod yr Adolygiad ar y Cyd wedi rhoi cyfle i ddangos i ddinasyddion Gwynedd ac i'r Archwiliwr fod y Cyngor â'r gallu i ymateb i'r her, a'i bod yn disgwyl cydnabyddiaeth swyddogol yr Archwiliwr ei fod wedi'i argyhoeddi bod y Cyngor yn derbyn yr her,

Eglurodd bod strategaeth 10 mlynedd y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn nodi'n glir na ellir cyfyngu maes gwaith gwasanaethau cymdeithasol i focs, gan ei fod yn gorgyffwrdd â phob rhan o fywyd a chymuned pobl - cyn geni hyd ddiwedd oes. Roedd un peth yn effeithio ar rywbeth arall, ac roedd hyn yn her sylweddol o safbwynt cynllunio a diwallu anghenion.

(c) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint yn manylu ar y cyd-destun a phroses, prif lwyddiannau a heriau ynghyd â blaenoriaethau.

Eglurwyd bod yr Adroddiad Blynyddol yn cymryd lle'r adolygiad ar y cyd, a bod disgwyliad statudol ar bob Cyngor trwy'r Cyfarwyddwr Statudol, i gyflwyno adroddiad blynyddol cyhoeddus yn datgan, yn ddiduedd, sut oedd y gwasanaeth yn perfformio, a beth oedd y blaenoriaethau. Roedd yn drefn barhaus o hunan asesu effeithiolrwydd, adrodd ar berfformiad a chasglu tystiolaeth, a phwysleisiodd bod y llwybr tystiolaeth yn allweddol bwysig.

Eglurodd y cytunwyd i gyflwyno adroddiad trosolwg oedd yn hawdd i'w deall ac oedd yn hyrwyddo cyfathrebu gyda dinasyddion. Nodwyd bod y gridiau tystiolaeth a chronfa tystiolaeth yn elfennau holl bwysig o'r adroddiad.

Manylwyd ar y camau i lunio'r adroddiad, sef, hunan asesiadau gan reolwyr gwasanaethau cymdeithasol, sesiynau herio gyda phartneriaid, sesiynau briffio a herio gydag aelodau, dosbarthu 3000 o holiadur defnyddwyr, a datblygu Cynllun Busnes i weithredu ar y gwelliannau a nodwyd.

Pwysleisiwyd bod newid sylweddol yn y drefn newydd o ran yr egwyddorion sylfaenol, bod gan y Cyfarwyddwr Statudol gyfrifoldeb personol am yr adroddiad, a bod angen ffocws ar y defnyddwyr a bod eu mewnbwn yn allweddol.

(ch) Manylwyd ar y prif lwyddiannau.

Adroddwyd bod swyddogion a'r archwiliwr o'r farn bod gwasanaethau saff ar gyfer trigolion Gwynedd ym maes amddiffyn plant ac oedolion bregus. Roedd yr archwiliwr wedi adrodd yn gyson bod gwasanaethau'n fwy cyson, bod systemau rheolaethol yn fwy effeithiol, a bod y gweithlu'n ymroddgar a chydwybodol. Hefyd roedd gwelliant mewn perfformiad a dangosyddion allweddol ynghyd â gwelliant yn ansawdd a chywirdeb data.

Eglurwyd y llwyddwyd i gynnal gwelliannau tra'n ail strwythuro maes oedolion a phlant. Cynyddwyd nifer rhieni maeth, a llwyddwyd i weithredu o fewn y cyllidebau. Fodd bynnag pwysleisiwyd bod heriau sylweddol ym maes anabledd dysgu, ôl ofal, cyfeiriadau plant a phlant anabl, ac ni lwyddir i gywiro'r balansau heb newid y dull o weithredu.

O safbwynt cynnydd yn y rhieni maeth, pwysleisiodd bod y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth ar eu cyfer yn allweddol bwysig a'i fod wedi gwella'n sylweddol yng Ngwynedd.

Nodwyd bod y canran o adolygiadau ar gyfer pobl hŷn a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn wedi cynyddu. Hefyd roedd gwariant ar leoliadau allanol wedi gostwng yn sylweddol, a nodwyd bod cysylltiad amlwg rhyngddo a'r cynnydd yn y rheini maeth. Fodd bynnag nododd bod y nifer o oedolion gydag anabledd dysgu oedd yn derbyn gwasanaeth wedi mynd i lawr yng Ngwynedd o gymharu â llefydd eraill yng Nghymru. Roedd gwariant hefyd yn is yng Ngwynedd, ac roedd angen cyflawni gwaith yn y maes er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa. Nodwyd y bydd hyn yn gryn her i'r gwasanaeth.

Pwysleisiwyd y cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y defnyddwyr. Roedd 79.3% yn cytuno ei bod yn hawdd cael gwybodaeth glir am wasanaethau, 83.3% yn fodlon gyda'r ymateb, 81.1% yn credu bod eu barn yn cael eu parchu, 79.2% o'r farn bod yr amser cyn derbyn y gwasanaeth yn dderbyniol a 81.7% yn nodi eu bod wedi eu cynnwys yn y broses penderfynu ar y cymorth. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai materion, sef, roedd pryder ynglŷn â rhestr aros am addasiadau, roedd angen mwy o wybodaeth am wasanaethau, gwell gofal cwsmer a chyswllt gyda defnyddwyr. Hefyd roedd pryder ynglŷn â sicrhau gwasanaeth yn yr iaith ddewisol.

(d) Cyfeiriwyd at y prif heriau oedd y wynebu'r gwasanaethau.

Eglurwyd bod nifer y cyfeiriadau'n cynyddu'n sylweddol. Gwelwyd cynnydd o bron i 10% y llynedd ym maes plant, a 40% o gynnydd ym maes oedolion yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Ni welwyd cynnydd yn lefel staffio'r gwasanaeth. Pwysleisiodd bod y perfformiad wedi gwella, ac ansawdd yr archwiliadau i'w canmol, a bod y llwyddiant i resymoli'r ddarpariaeth a sefydlu systemau mwy effeithlon ac effeithiol yn glod aruthrol i'r

rheolwr a'r staff. Fodd bynnag, cyfeiriodd at y risgiau mawr ym maes plant, a nodwyd bod rhaid bod yn wyliadwrus i'w rheoli.

Manylodd ymhellach ar yr her o adnabod llety addas sy'n gost effeithiol ar draws y maes gwaith. Nodwyd y llwyddwyd i sefydlu uned busnes a phenodi swyddogion. Fodd bynnag, er bod trefniadau wedi gwella, eglurwyd bod y broses yn arafach na'r disgwyl, a bod angen cyflymu'r ffordd yr oedd y Cyngor yn newid gwasanaethau, a'r ffordd o gomisiynu a phwrcasu.

(dd) Manylwyd ar y prif flaenoriaethu sef gweithredu cynlluniau strategol o safbwynt comisiynu; sicrhau gweithlu hyderus, gwybodus oedd a'r gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol; parhau i wella trefniadau adrodd ac ansawdd gwybodaeth o safbwynt perfformiad a data, ac ymgysylltu gyda phartneriaid.

(e) Er mwyn cyflawni a llwyddo pwysleisiodd y Pennaeth bod rhaid gweithredu fel Cyngor o safbwynt adnabod anghenion maes gofal, sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau'r Cyngor cyfan. Hefyd roedd rhaid gweithredu fel sector gofal, gan rymuso ac uchafu doniau a gwybodaeth pawb yn y sector sy'n ymateb i anghenion dinasyddion Gwynedd. Yn ogystal roedd rhaid cael darpariaeth oedd yn ymateb i anghenion defnyddwyr ac yn gallu symud yn gynt ar sail tystiolaeth.

Wrth gloi adroddodd y Pennaeth y llwyddwyd i wneud cynnydd sylweddol, a'i bod yn hyderus bod y Cyngor yn barod i wynebu'r her. Diolchodd yn ddiffuant i weithlu ymroddgar a chydwybodol y gwasanaethau cymdeithasol.

(f) Diolchwyd i'r Pennaeth, y rheolwyr a'r holl weithlu am eu hymdrechion arwrol i sicrhau cynnydd.

Nodwyd gan aelodau bod yr Adolygiad ar y Cyd wedi bod yn broses o ddysgu ac addysgu ac wedi bod o gymorth i'r gwasanaeth, ac i'r Cyngor ddatblygu. Cyfeiriwyd at yr heriau sylweddol oedd yn wynebu'r gwasanaethau, a phwysleisiwyd bod angen i'r aelodau hefyd ymateb i'r heriau a'r sialensiau, a rhoi arweiniad cadarn i'r dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad eglurodd y Pennaeth bod y cynnydd i'w briodoli i gyfuniad o nodweddion gan gynnwys cydweithio fel tîm fel gweithlu maes gofal yn ogystal â thiim corfforaethol, newid diwylliant, sefydlu uned fuses, cyflwyno cyfundrefnau newydd a phrosesau newydd, staff mentrus ac egniol a.y.b.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod llawer o'r llwyddiant hefyd i'w briodoli i arweinyddiaeth gadarn a hyderus y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Hefyd roedd tîm rhagorol o uwch reolwyr, rheolwyr canol hyderus ac egniol ynghyd â gweithlu ymroddgar a gafaelgar. Diolchodd y Prif Weithredwr iddynt oll am eu hymdrechion llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch.**

## 7 Y PWYLLGOR CYNLLUNIO NEWYDD

(i) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i enwebu aelodau ar y pwyllgor cynllunio newydd, cymeradwyo diwygiadau i'r Cyfansoddiad o ganlyniad i sefydlu'r pwyllgor, a chymeradwyo lwfans arbennig i Gadeirydd y pwyllgor.

(ii) Adroddwyd bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 13 Mai wedi cymeradwyo sefydlu un pwyllgor cynllunio sirol ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac ardal. Byddai 15 aelod yn gwasanaethu ar y pwyllgor yn unol â'r dyraniad canlynol:- Plaid Cymru - 7; Annibynnol 4; Llais Gwynedd 2; Democratiaid Rhyddfrydol 1 a Llafur 1.

Er mwyn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr ardaloedd, cytunwyd bod y Grŵp Busnes yn enwebu 5 aelod o bob ardal o'r enwau a dderbyniwyd i wasanaethu ar y pwyllgor. Fodd bynnag oherwydd consyrn nad oedd gan y Grŵp Annibynnol gynrychiolaeth o'r tai ardal, cytunodd y Grŵp Busnes y dylid caniatáu 6 aelod o Arfon, 5 aelod o Ddwyfor a 4 aelod o Feirionnydd i wasanaethu ar y pwyllgor. Nid oedd cytundeb unfrydol y Grŵp Busnes i'r drefn arfaethedig.

Oherwydd bod y Cyngor wedi penderfynu ym mis Mai bod traean o aelodau'r pwyllgor yn dod o'r tair ardal, penderfynwyd rhoi rheol gweithdrefn 18 o'r neilltu er mwyn ystyried newid trefniadau cydbwysedd ardal ar gyfer y pwyllgor cynllunio newydd yn unol â'r canlynol:- Arfon 6; Dwyfor 5 a Meirionnydd 4.

(iii) Mynegodd aelod anfodlonrwydd bod cynifer o aelodau ardal Meirionnydd ar y pwyllgor newydd, oherwydd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ymdrin â'r rhan helaethaf o geisiadau cynllunio yn ardal Meirionnydd.

(iv) Mynegodd aelod arall anfodlonrwydd parthed y cydbwysedd arfaethedig. Nodwyd bod 34 aelod yn ardal Arfon, 20 yn ardal Nwyfor a 21 yn ardal Meirionnydd, ac y dylai cydbwysedd y pwyllgor cynllunio newydd adlewyrchu'r dyraniad hynny.

Syrthiodd gwelliant i newid cydbwysedd ardal y Pwyllgor Cynllunio Sirol i fod â 7 aelod o Arfon, 4 o Ddwyfor a 4 o Feirionnydd.

(v) Eglurodd Arweinydd Grŵp Llais Gwynedd ei fod yn anfodlon gyda dyraniad gwleidyddol y pwyllgor newydd. Roedd o'r farn nad oedd y dyrniad yn adlewyrchiad cwbl gywir o gydbwysedd y Cyngor a bod Grŵp Llais Gwynedd ar eu colled o'r herwydd. Eglurodd bod gan Grŵp Llais Gwynedd 12 aelod a'r Grŵp Annibynnol 17 aelod ar y Cyngor. Fodd bynnag, dim ond 2 aelod oedd gan Grŵp Llais Gwynedd ar y Pwyllgor Cynllunio Sirol a Bwrdd y Cyngor, ond roedd gan y Grŵp Annibynnol 4 aelod ar y ddau bwyllgor. Pwysodd am gael 3 aelod yr un i Grŵp Llais Gwynedd a'r Grŵp Annibynnol ar y Pwyllgor Cynllunio Sirol.

Adroddodd y Prif Weithredwr bod dyraniad y Grŵp Llais Gwynedd a'r Grŵp Annibynnol yn agos iawn, a bod modd i'r Cyngor newid y dyraniad gwleidyddol yn ôl ei ddymuniad. Ni chynigiwyd gwelliant i'r perwyl.

(vi) Mynegodd aelod anfodlonrwydd mawr fod cadeirydd pwyllgor ardal yn colli lwfans. Nododd bod diddymu'r lwfans yn tanseilio statws y pwyllgor ardal, a gofynnodd am gael adfer lwfans cyfrifoldeb arbennig i gadeirydd pwyllgor ardal.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod y Panel Annibynnol wedi penderfynu mai Cadeirydd Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Trwyddedu, Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Cynllunio fydd yr unig bwyllgorau i dderbyn lwfans cyfrifoldeb arbennig. Eglurodd nad oedd pwyllgorau ardal ar y rhestr, ac yn sgil hynny, nid oedd gan y Cyngor hawl i dalu lwfans i gadeirydd Pwyllgor Ardal. Nododd bod modd cyflwyno cais i'r Panel Annibynnol i dalu lwfans cyfrifoldeb arbennig i Gadeirydd Pwyllgor Ardal.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Rhoi Rheol Gweithdrefn 18 o'r neilltu er mwyn ailystyried penderfyniad y Cyngor ym Mai 2010 parthed cydbwysedd ardal y pwyllgor cynllunio newydd;**
**(ii) Cadarnhau'r cydbwysedd gwleidyddol canlynol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio Sirol:-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **7** |
| **Annibynnol** | **4** |
| **Llais Gwynedd** | **2** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **1** |
| **Llafur** | **1** |

**(iii) Mabwysiadu'r cydbwysedd ardal ganlynol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio Sirol:-**

| | |
|---|---|
| **Arfon** | **7;** |
| **Dwyfor** | **5;** |
| **Meirionnydd** | **4;** |

**(iv) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i benodi aelodau i'r pwyllgor newydd yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol a chydbwysedd ardal uchod, ac yn unol â chytundeb y Grŵp Busnes, neu os na fydd cytundeb yn unol â'r datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd gan aelodau'r Cyngor;**
**(v) Diwygio'r Cyfansoddiad yn unol â pharagraff 9 yn adroddiad y Swyddog Monitro;**
**(ti) Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cynllun Lwfansau aelodau yn unol â pharagraffau 10-12 yn adroddiad y Swyddog Monitro a chyflwyno cais ffurfiol i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gael talu lwfans cyfrifoldeb arbennig i Gadeirydd Pwyllgor Ardal**

**8 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Ioan Thomas o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu ar fyrder at gwmni Grant Thornton, gweinyddwyr Cwmni Barcud Derwen i ofyn iddynt sicrhau cyfarfod o gredydwyr y Cwmni yng Nghaernarfon."**

Eglurodd yr aelod bod nifer o gwmnïau lleol ac unigolion wedi'i effeithio gan sefyllfa ariannol cwmni Barcud, bod nifer ohonynt yng Nghaernarfon a'r ardal leol, a bod angen ceisio sicrhau bod cyfarfod credydwyr Barcud Derwen yng Nghaernarfon.

**PENDERFYNWYD**
**(i) mabwysiadu'r rhybudd o gynnig canlynol:-**
**"Bod Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu ar fyrder at gwmni Grant Thornton, gweinyddwyr Cwmni Barcud Derwen i ofyn iddynt sicrhau cyfarfod o gredydwyr y Cwmni yng Nghaernarfon."**
**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Datblygu'r Economi ac Adfywio i weithredu ar y cynnig**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.50 p.m.

______________________________

**CADEIRYDD**